

Y Mis Hwn yn Ysgol Arberth

Am fis prysur iawn! O groesawu pawb yn ôl ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd i wrando ar areithiau gwych y Prif Fechgyn a'r Prif Ferched, mae cymaint wedi bod yn digwydd ar draws yr ysgol yn barod.

Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi mwynhau eu hanturiaethau preswyl, ac mae pob dosbarth wedi bod yn ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd ac yn dechrau eu themâu newydd cyffrous. Mae'r disgyblion wedi bod yn rhannu eu syniadau, eu diddordebau a'u cwestiynau, gan sicrhau bod llais y plentyn yn helpu i lywio'r daith ddysgu sydd o'u blaenau. Rydym hefyd wedi dechrau pennod newydd gyffrous gyda Big Bocs Bwyd.

Darllenwch ymlaen i ddarganfod mwy am y digwyddiadau hyn a phopeth arall rydym wedi bod yn ei wneud y mis hwn!

Presenoldeb

Targed: **96%**



Dosbarth Barti Ddu	92%
Dosbarth Jemima	93%
Dosbarth Branwen	97%
Dosbarth Arthur	94%
Dosbarth Rhiannon	92%
Dosbarth Pwyll	92%
Dosbarth Hywel Dda	96%
Dosbarth Merched Beca	95%
Dosbarth Waldo	97%



Cyhoeddi ein Prif Fechgyn a'n Prif Ferched

Yn Nosbarth Waldo a Dosbarth Beca, cyflwynodd wyth merch a phedwar bachgen o bob dosbarth, ei hunain mewn ffordd ddewr ar gyfer rolau'r Prif Fechgyn a'r Prif Ferched. Cyflwynwyd eu hareithiau'n hyderus o flaen disgyblion o Flwyddyn 1 ymlaen, a gwnaeth pob un ohonynt yn wych. Rydym yn hynod falch o bawb a gymerodd ran.

Yn dilyn yr areithiau, cafodd y disgyblion gyfle i bleidleisio a dewis ein dau Brif Fachgen a'n dwy Brif Ferch. Llongyfarchiadau i chi i gyd!





Cipolwg ar ein Dosbarthiadau

Dosbarth Barti Ddu and Jemima

Mae plant Dosbarth Barti Ddu a Dosbarth Jemima wedi ymgartrefu'n arbennig o dda yn eu dosbarthiadau newydd ac roeddent yn gyffrous iawn i lansio eu thema newydd, Taith i'r Gofod. Yn ystod yr wythnos lansio, digwyddodd rhywbeth dirgel iawn— digwyddiad y gallai'r plant ond ei ddisgrifio fel estronlong yn glanio mewn damwain! Maent wedi mwynhau ymchwilio i'r safle, chwilio am gliwiau, gofyn cwestiynau a rhannu eu syniadau dychmygus.



Dosbarth Branwen and Arthur

Mae Dosbarth Arthur a Dosbarth Branwen wedi mwynhau dechrau prysur a chyffrous i'r tymor! Fel rhan o'u thema newydd, Cloddio'r Gorffennol, mae'r plant wedi bod yn teithio'n ôl mewn amser i ddysgu am Oes y Cerrig ac Oes yr Efydd. Maent wedi ymchwilio i linellau amser, aneddiadau a'r ffordd y newidiodd bywydau pobl dros amser. Mae'r plant hefyd wedi dysgu mwy am Bobl y Bicer ac wedi cael llawer o hwyl yn dylunio a chreu eu potiau u hunain yn arddull y Bicer. Mewn llythrennedd, maent wedi bod yn archwilio straeon porth dychmygus, tra bod gweithgareddau mathemateg ymarferol wedi eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o werth lle.



Dosbarth Rhiannon, Pwyll and Hywel Dda

Mae plant Dosbarth Rhiannon, Dosbarth Pwyll a Dosbarth Hywel Dda wedi teithio'n ôl mewn amser i archwilio 1066 a Chymru, gan ddysgu am oresgyniadau'r Eingl-Sacsoniaid a'r Llychlynwyr. Dechreuon nhw drwy rannu a chasglu eu syniadau a'u cwestiynau eu hunain, gan sicrhau bod llais y plentyn yn helpu i lywio eu dysgu. Maent wedi mwynhau archwilio rwnau a llongau hir, dylunio baneri Llychlynnaidd a phrofi eu gwybodaeth drwy gwisiau am y Llychlynwyr a'r Eingl-Sacsoniaid. Mae'r plant hefyd wedi dechrau darllen y nofel gyffrous 'Viking Boy' ac maent eisoes yn edrych ymlaen at ddarganfod beth fydd yn digwydd nesaf!



Dosbarth Merched Beca and Waldo

Mwynhaodd Dosbarth Beca a Dosbarth Waldo ddiwrnod lansio cyffrous ar gyfer eu thema newydd, Rhyfel a Heddwch. Cymerodd y plant ran mewn gweithgareddau Diemwnt 9 i archwilio profiadau a blaenoriaethau faciwis yn ystod y rhyfel. Fe wnaethant hefyd greu llinellau amser o ddigwyddiadau allweddol a chynhyrchu gwaith celf ystyrlon yn cymharu rhyfel a heddwch. Dangosodd y plant frwdfrydedd, creadigrwydd a gwaith tîm gwych drwy gydol y dydd, gan greu dechrau arbennig i thema sy'n addo bod yn hynod ddiddorol!





Mwy o Newyddion o Ysgol Arberth

Llangrannog

Mwynhaodd y rhan fwyaf o'n disgyblion Blwyddyn 6 dri diwrnod llawn antur yn Llangrannog. Cymerodd y plant ran mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys saethyddiaeth, nofio, cwrs antur ym mrigau'r coed, dringo creigiau, cwmp rhydd, gwifren sip, beiciau cwad, ceir gwibio, marchogaeth a llawer mwy. Cawsant hefyd gyfle i ymlacio, chwarae yn y

parc a mwynhau treulio amser gyda'u ffrindiau. Dangosodd y plant hyder a gwaith tîm gwych, gan gynrychioli ein hysgol yn arbennig o dda. Diolch enfawr i Mrs Williams, Mrs Cox, Mrs Lloyd a Mr Pearce am roi o'u hamser i fynd gyda'r plant a helpu i wneud y daith yn brofiad mor gofiadwy.



Bocs Bwyd

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod Ysgol Arberth wedi cael ei dewis i ymuno â phrosiect Big Bocs Bwyd. Siop fwyd gymunedol 'talwch fel y teimlwch' yw Big Bocs Bwyd, sy'n cael ei rhedeg gan blant a gwirfoddolwyr. Ei nod yw lleihau gwastraff bwyd a darparu bwyd fforddiadwy i deuluoedd a'r gymuned ehangach. Drwy weithio mewn partneriaeth ag archfarchnadoedd lleol a FareShare Cymru, bydd bwyd dros ben yn cael ei ailddosbarthu yn hytrach na mynd yn wastraff.

Bydd y siop wedi'i lleoli wrth ymyl yr ysgol, gan ei gwneud yn hawdd i deuluoedd ei defnyddio a chreu cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Bydd y prosiect hefyd yn cyfoethogi profiadau dysgu ein disgyblion, a fydd yn cael cyfleoedd i dyfu bwyd, hyrwyddo cynaliadwyedd a datblygu medrau bywyd gwerthfawr.

Bydd y plant hefyd yn cael cyfleoedd i goginio gan ddefnyddio bwyd o Big Bocs Bwyd, yn ogystal â'r cynnyrch y maent wedi'i dyfu eu hunain. Mae ein disgyblion eisoes wedi bod yn cefnogi'r prosiect drwy ymweld â busnesau lleol i drafod gwastraff bwyd ac annog rhoddion o fwyd dros ben ac eitemau hanfodol i'r cartref.

Rydym yn hynod falch o'u brwdfrydedd, eu hymroddiad a'u hangerdd dros wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein hysgol a'n cymuned leol. Rydym hefyd yn chwilio am rieni sy'n fodlon gwirfoddoli i ymuno â phwyllgor Big Bocs Bwyd ochr yn ochr ag aelodau o staff. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â Mrs Moore neu Mrs Norgan.



Caerdydd

Mwynhaodd ein disgyblion Blwyddyn 5 dri diwrnod llawn hwyl yn archwilio Caerdydd ac yn creu atgofion arbennig gyda'u ffrindiau. Roedd eu hantur gyffrous yn cynnwys ymweliad â Big Pit, noson ffilm, teithiau mewn cwch cyflym, helfeydd trysor, taith mewn tacsî dŵr, ymweliad â'r Senedd, gêm griced, Sain Ffagan a disgo gwych.

Mwynhaodd y plant eu hamser i ffwrdd yn fawr a chynrychiolwyd ein hysgol yn arbennig o dda. Roedd eu hymddygiad drwy gydol y daith yn wych, ac rydym yn hynod falch ohonynt i gyd. Diolch enfawr i Mrs Moore, Miss Bailey, Mrs Layzell, Miss Gibbard a Miss Austin am roi o'u hamser i fynd gyda'r plant a helpu i wneud y daith breswyl yn brofiad mor arbennig.



admin.narberth@pembrokeshire.gov.uk



01834 860776



www.narberthschool.co.uk